

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

13 Awst 2018

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.35am)

## 1. Llongyfarchiadau

Estynnodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau i Dr RM Plummer ar ddod yn fam-gu am y tro cyntaf.

## 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd A Wilcox.

## 3. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar yr 20<sup>fed</sup> o Fehefin 2018 – y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r cyfarfod Cyffredin, i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar yr 20<sup>fed</sup> o Fehefin 2018.

Gan gyfeirio at Gofnod 8, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn Sir Benfro, o gofnodion y cyfarfod Cyffredin, dymunodd Dr R Heath-Davies egluro mai ei phryder hi oedd yr anhawster o gael gwybodaeth pa na ellid lawr-lwytho mapiau, megis pan oeddent allan yma a thraw heb fawr o signal ffôn symudol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar yr 20<sup>fed</sup> o Fehefin 2018 cyn belled ag y gwneir y newid uchod

## 5. Materion yn codi o'r cofnodion

### (a) Caffi Castell Caeriw (Cofnod 4(a) Cyfarfod Cyffredin)

Nodwyd bod y Caffi yng Nghastell Caeriw bellach ar agor.



## **NODWYD.**

### **6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd iddi fynychu Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Sgowtiaid lle y derbyniodd groeso cynnes; ychwanegodd bod y cyfarfod yn ddiddorol iawn a chanmolodd y rhai sy'n rhoi o'u hamser mewn amrywiol ffyrdd er budd y bobl ifanc. Roedd hi hefyd wedi mynychu dathliad Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Sunderland yn Noc Penfro, ac unwaith eto roedd yn cymeradwyo ymrwymiad y staff a'r gwirfoddolwyr i'r sefydliad a'u gwaith yn diogelu hanes Doc Penfro.

## **NODWYD.**

### **7. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried neu er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Mehefin, 18 Mehefin ac ar 20 Mehefin 2018;
- (ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2018;
- (iii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2018.

## **NODWYD.**

### **8. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Eglurodd bod y gwaith archwilio bellach wedi'i gwblhau, ac y bydd yr Archwilydd, Anthony Barrett, yn ardystio'r cyfrifon y diwrnod dilynol ac yn cyhoeddi adroddiad diamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar ôl derbyn y cyfrifon wedi'u llofnodi. Dymunodd Mr Evans ddiolch i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled ac am gynnal eu safonau uchel er gwaethaf nifer o newidiadau yn y tîm. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, ond tynnodd sylw at nifer fechan o faterion y gellid eu gweld yn Atodiad 3 yr adroddiad - roedd y rhain yn cynnwys camgymeriadau cyfrifyddu technegol nad oedd yn cael effaith gyffredinol ar y cyfrifon, a mân newidiadau eraill a awgrymir, megis gwallau talgrynnu. Hefyd gwnaed dau argymhelliad yn Atodiad 4 ynghylch y Gofrestr Asedau Sefydlog a'r cysoniadau banc, a chadarnhaodd y Rheolwr Cyllid bod yr argymhellion hyn bellach wedi'u rhoi ar waith. Hefyd dywedodd Mr Evans bod newid yn y rheoliadau yn golygu bod dyddiad cau'r cyfrifon wedi'i ddwyn ymlaen, ac felly byddai angen cynnal cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Gorffennaf 2019 fel y gellid cwrdd â'r dyddiad cau hwn.



Roedd yr Aelodau yn falch o gael set o gyfrifon diamod ac o nodi bod yr argymhellion a wnaed wedi'u rhoi ar waith. Gan droi at y rhestr o faterion llywodraethu arwyddocaol a glustnodwyd yn y Datganiad o Gyfrifon, gofynnwyd am i'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i glirio'r ôl-groniad o achosion gorfodi gael ei chyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, gan fod y pwyllgor hwnnw yn fwy o gyfarfod cyhoeddus na'r Pwyllgor Adolygu sydd eisoes yn derbyn y diweddariadau hyn, a allai felly roi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd bod y broblem yn derbyn sylw. Hefyd nodwyd bod camgymeriad yn Atodiad 1, y Rhestr o Lwfansau a Threuliau'r Aelodau a dalwyd - dylai troednodyn 3 gyfeirio at 2016, nid 2015.

**PENDERFYNWYD:**

- a) Derbyn yr Adroddiad ISA260 gan Swyddfa Archwilio Cymru i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu; a
- b) Chymeradwyo a llofnodi'r Datganiad o Gyfrifon 2017/18.

**9. Cynllun Gwella Rhan 2 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyflawni Amcanion Llesiant 2017/18**

Dywedwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod o dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gyhoeddi Cynllun Gwella Rhan 2 erbyn Hydref yr 31<sup>ain</sup>. Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant ac i ddangos sut oedd yr amcanion hynny yn cyfrannu at saith o Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru. Yn ôl y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol bob blwyddyn i gyrrff gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos y camau a gymerwyd ganddynt o ran cyflawni eu hamcanion. Rhaid iddynt hefyd ddangos sut maent wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, sef Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chynnwys.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn erbyn y rhaglen waith a gynigiwyd yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod am y flwyddyn 2017/18, a'r adroddiad hwn yw'r Cynllun Gwella Rhan 2 ac adroddiad blynyddol yr Awdurdod ar y camau a gymerwyd yn erbyn ei Amcanion Llesiant. Hwn hefyd yw adroddiad blynyddol yr Awdurdod ar gydraddoldeb (gweler Amcan 1, 3, 4, 5 a 6).

Nodwyd bod gwall yn y tabl ar dudalen 30 yr adroddiad ac y byddai hyn yn cael ei adolygu cyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr, oedd yn ddarlun manwl o'r gweithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdod, ac yn adroddiad defnyddiol iddynt hwy ac yn ddiddorol i'r cyhoedd. Awgrymwyd



cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn esbonio sut oedd yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o achosion gorfodi, ac roedd yr Aelodau hefyd wedi cynnig nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Gwella Rhan 2 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyflawni Amcanion Llesiant 2017/18.

**10. Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol**

Dywedwyd bod Cadeirydd yr Awdurdod wedi derbyn llythyr ar y 27ain o Orffennaf oddi wrth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC, oedd yn amlinellu'r Blaenoriaethau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn 2018-19. Roedd y llythyr yn cyfeirio at ddatganiad Llywodraeth Cymru "Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol", a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod. Roedd y ddwy ddogfen ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd y datganiad yn amlinellu'r meysydd o flaenoriaeth allweddol yn dilyn ystyried canlyniadau'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig, Rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar *Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru*. Roedd y datganiad yn egluro dibenion y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yng nghyd-destun bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac ar ddiwedd cyfnod yr adolygiad.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r dogfennau ar y cyfan, yn enwedig y cyllid ychwanegol oedd wedi'i gyhoeddi, ond roeddent yn amheus ynglŷn â'r sefyllfa ariannol yn y dyfodol, a holwyd am y mesurau a roddir ar waith i ddyrannu'r cyllid ychwanegol am y flwyddyn gyfredol. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr arian ychwanegol yn cynnig amrywiol gyfleoedd, ac y byddai adroddiad yn cael ei baratoi yn yr hydref pan fydd y ffigurau am dymor yr haf ar gael. Hefyd awgrymodd yr Aelodau bod angen rhoi prosesau ar waith i sicrhau y gallai'r Awdurdod gyflwyno tystiolaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd oedd yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y llythyr a'r datganiad.

O ran yr adran ar 'wireddu'r potensial economaidd', tra bod rhai Aelodau yn siomedig nad oedd cylch gwaith penodol ar gyfer datblygu economaidd wedi'i gynnwys fel 'trydydd diben', roeddent wedi'u calonogi gan anogaeth y Gweinidog i'r Awdurdod gefnogi gweithgarwch economaidd, ac o'r farn bod hyn yn cynnig cyfleoedd oedd angen eu hystyried. Roeddent hefyd o'r farn bod angen gwneud gwaith pellach i benderfynu pa weithgareddau masnachol sy'n gymwys a sut oedd gwneud y gorau o'r gweithgareddau hyn tra'n parhau yn driw i'r



gwerthoedd a'r dibenion craidd. Dywedwyd mai'r symbylydd economaidd pwysicaf yn y sir oedd ei thirwedd dilychwin a bod angen cynnal hyn.

Daeth yr Aelodau â'r drafodaeth i ben drwy gymeradwyo gwaith y tri Prif Weithredwr yng Nghymru yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf hyn, ac o'r farn bod hyn bellach yn dwyn ffrwyth.

**PENDERFYNWYD** nodi'r datganiad "Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol" a'r cyhoeddiad cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol.

#### **11. Adolygu Ffin Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod**

Dywedwyd bod Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod wedi'i dynodi yn 1971 a'i hystyngi yn 1996. Roedd y ffin wedi'i hadolygu unwaith yn rhagor, a'r bwriad yn awr oedd ymestyn y ffin yn sylweddol i gyfeiriad y gorllewin i gynnwys ardal Southcliffe, strydoedd pwysig ar y cyrion, yr Hen Reithordy a'r Fynwent. Byddai hyn yn cynnwys datblygiad y dref yn ddiweddarach yn y 19eg ganrif, sef cyfnod heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y ffin bresennol.

Roedd y rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr estyniad arfaethedig heb eu rhestru, ond roeddent yn cadw eu ffurf a'u lleoliadau yn dda, a'r prif fygythiadau iddynt oedd cael eu newid gan hawliau datblygu a ganiateir i ddeiliaid tai, gan gynnwys newidiadau i ffenestri hanesyddol, gwaredu ffiniau blaen a gosod llawr caled. Byddai eu cynnwys o fewn yr ardal gadwraeth yn sicrhau y byddai'r cyfryw adeiladau yn cael eu monitro'n gyson, a gellid cyflwyno rheolaeth Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) pe bai bygythiad gwirioneddol a phenodol i'r cymeriad hanesyddol.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am ganiatâd i gychwyn proses o ymgynghori â'r cyhoedd ar y cynnig i ymestyn y ffin, ac y byddai canlyniadau'r ymgynghori yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r adroddiad, ond gofynnwyd am sicrwydd na fyddai unrhyw geisiadau cynllunio oedd eisoes wedi'u cyflwyno yn cael eu heffeithio, a rhoddwyd y sicrwydd hwn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo i fwrw ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol â'r cyhoedd ynglŷn ag ymestyn Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod fel y nodwyd ar y map oedd ynghlwm wrth yr adroddiad, gyda chanlyniadau'r ymgynghori yn destun sylw adroddiad pellach i'r Awdurdod.



## 12. Ystyried Newid i'r Calendr Cyfarfodydd fis Mawrth 2019

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Calendr o Gyfarfodydd 2018/19 wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018. Ers hynny, sylweddolwyd bod dyddiad sesiwn Sefydlu Aelodau Parciau Cenedlaethol y DU oedd i'w gynnal yn Aberhonddu rhwng 12 a 14 Mawrth 2019 yn gwrthdaro â chyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Fforwm Gweithwyr a drefnwyd i'w cynnal ar 13 Mawrth 2019. O ystyried y ffaith bod nifer o'r Aelodau wedi mynegi diddordeb mewn mynychu'r sesiwn sefydlu yn Aberhonddu, awgrymwyd y dylid ystyried symud y cyfarfodydd hyn i'r 6ed o Fawrth. Pe cytunir i'r newid hwn, byddai angen hefyd symud y Pwyllgor Adolygu Gweithredol o'r 6ed o Fawrth i'r 27ain o Fawrth.

### **PENDERFYNWYD:**

- a) symud cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Fforwm Gweithwyr o'r 13eg o Fawrth 2019 i'r 6ed o Fawrth 2019; a
- b) symud cyfarfod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol o'r 6ed o Fawrth 2019 i'r 27ain o Fawrth 2019.

## 13. Aelodaeth Pwyllgorau

Atgoffwyd yr Aelodau y dywedwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2018 y byddai ystyried aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a Phwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Gan fod yr apwyntiadau angenrheidiol bellach wedi'u gwneud, roedd yr adroddiad yn awgrymu cyfansoddiad y Pwyllgorau hyn.

**PENDERFYNWYD** bod aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau fel a ganlyn:

### Y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Mrs G Hayward, Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Cynghorydd D Clements, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Archwilio ac  
Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol  
Cynghorydd A Wilcox  
Cynghorydd M James  
Cynghorydd P Kidney

### Pwyllgor Cwynion

Mr A Archer, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau  
Corfforaethol  
Cynghorydd M Williams, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu  
Dr RM Plummer  
Dr R Heath-Davies  
Cynghorydd PJ Morgan



### Pwyllgor Apeliadau

Mr AE Sangster, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Cynghorydd R Owens, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu  
Cynghorydd P Harries  
Mrs J James  
Cynghorydd K Doolin

#### **14. Creigiau Stack a Sant Gofan: Diweddariad ar Drafodaethau Adnewyddu Prydles**

Dywedwyd bod y safleoedd a enwir uchod yn rhan o dir sydd yn berchen i'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) ac yn rhan o'u maes hyfforddiant yng Nghastellmartin. Roedd yr Awdurdod yn rheoli'r ddau safle o dan un brydles, oedd wedi dod i ben fis Mawrth 2016, ac ers hynny mae'r Awdurdod wedi parhau i ddal meddiant tra'n trafod telerau'r adnewyddu.

Mae'r safleoedd yn bwysig iawn o ran cynnig cyfleusterau i ymwelwyr sy'n dod i ryfeddu at y golygfeydd ysblennydd ar y glannau a Chapel hanesyddol Sant Gofan. Safleoedd ydynt sydd wedi cael eu rheoli gan yr Awdurdod ers 1974.

Gan fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gwrthod yn llwyr yr awgrym i symud i ffwrdd o drefniant ffurfiol Landlord a Tenant ac o blaid Cytundeb Rheoli cyfoes a mwy hyblyg, cytunwyd ar delerau prydles galwedigaethol newydd, ac roedd y telerau amlwg wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Roedd yr Aelodau yn siomedig nad oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn fwy blaengar yn ei ymagwedd, ac er gwaethaf ymdrechion y swyddogion i fod yn rhagweithiol, roedd wedi cymryd sawl blwyddyn i ddod i gytundeb. Roeddent yn amau bod hyn yn unol ag ysbryd gweithio mewn partneriaeth.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi'r swyddogion i ddogfennu adnewyddu prydles safleoedd Creigiau Stack a Sant Gofan ar y telerau a amlinellwyd yn yr adroddiad.

#### **15. Cynllun Tanddaearu Ceblau Trydan, Parrog Trefdraeth**

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 9fed o Awst 2017 wedi cymeradwyo bod y swyddogion yn parhau â'u gwaith i gyflawni cynllun tanddaearu ceblau trydan ar y cyd gan Western Power Distribution (WPD) a BTOpenreach ar y Parrog Trefdraeth, gyda'r Awdurdod yn cyfrannu £14,000 tuag at gyfanswm costau BTOpenreach a amcangyfrifwyd yn £33,000. Byddai WPD yn talu am eu costau, a amcangyfrifwyd yn rhyw £187,000.



Nid oedd unrhyw newid yn sefyllfa WPD, ond roedd BTOpenreach bellach wedi tynnu eu cynnig yn ôl o gytundeb adennill rhan o'r costau a bellach ond yn gallu symud ymlaen ar sail adennill y costau yn llawn a amcangyfrifwyd i lawr yn £24,054; byddai cyflawni'r cynllun felly yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyfrannu'r swm hwn.

Roedd y swyddogion o'r farn, er gwaethaf y gost ariannol uwch i'r Awdurdod, bod y cynllun arfaethedig yn gyfle gwych i wireddu cryn fudd gweledol parhaol yn un o leoliadau mwyaf eiconig y Parc Cenedlaethol. Hefyd gallai'r cynllun hwn fod yn nawfed cynllun tanddaearu o dan y fenter hon gyda WPD yn y Parc Cenedlaethol.

Cytunodd yr Aelodau bod cyfradd ymyrraeth gan yr Awdurdod o 11.3% o'r cynllun cyfan yn fuddsoddiad gwerth chweil fel bod y ceblau hyn yn cael eu claddu o dan y ddaear, fyddai'n gwella tirwedd Parrog Trefdraeth a'r golygfeydd o bell o Drefdraeth ymhellach i fyny Afon Nyfer a Charningli. Fodd bynnag, holodd yr Aelodau a ellid rhoi mwy o bwysau ar BTOpenreach yn y dyfodol i fuddsoddi mewn tanddaearu fel rhan o uwchraddio i fand eang cyflym iawn, gan fod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid ar gyfer y gwaith hwn. Dywedodd y swyddog bod BTOpenreach yn amharod i danddaearu ceblau gan fod hynny yn gwneud y ceblau yn fwy anodd mynd atynt, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr y gallai Aelodau gael mwy o ddylanwad drwy ymgysylltu â'r rheoleiddwyr cyfleustodau mewn digwyddiadau i randdeiliaid.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi'r gwaith parhaus o sicrhau cyflawni cynllun tanddaearu ar y Parrog Trefdraeth, i gynnwys cyfraniad ariannol gan yr Awdurdod tuag at gostau'r cynllun hyd at uchafswm o £26,500.

## **16. Eithrio'r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** y dylai'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygolrwydd y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **17. Diweddariad ar Waredu Tir yr Awdurdod a elwir yn Safle Carafanau Parc Cenedlaethol, Sageston**

Atgoffwyd yr Aelodau mai daliad tir yw hwn sy'n safle tir llwyd o 8 erw ar ymyl deheuol Sageston oedd yn eiddo rhydd-ddaliad yr Awdurdod gyda meddiant gwag llawn. Roedd yn safle di-angen i'r Awdurdod, a rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar 30 Mehefin 2016 i ddatblygu rhwng 90 a 100 o anheddau ar y tir. Mewn cyfarfod o'r Awdurdod fis Awst 2013, penderfynwyd, ar ôl rhoi caniatâd cynllunio amlinellol, y dylai'r swyddogion ddechrau ymarferiad i farchnata'r safle. Roedd yr ymarferiad hwn wedi parhau ar hyd yr amser, gyda diweddariad wedi'i gyflwyno mewn cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi 2017. Bellach,





roedd cynnig i brynu'r safle wedi dod i law oddi wrth *ateb*, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried hyn.

**PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig gan *ateb* fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac awdurdodi swyddogion i gyflawni'r broses trawsgludo angenrheidiol hyd at ac yn cynnwys cwblhau cyfreithiol.

